# FOXWIST, WILLIAM (1610 - 1673);

**Enw:** William Foxwist
**Dyddiad geni:** 1610
**Dyddiad marw:** 1673
**Rhiant:** Ellen Foxwist (née Thomas)
**Rhiant:** Richard Foxwist
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awduron:** Glyn Roberts, Gareth Haulfryn Williams

Ganwyd yng Nghaernarfon, 1610, aer Richard Foxwist a'i wraig Ellen, ferch William Thomas, Aber. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 1628; aeth i Lincoln's Inn, 14 Chwefror 1636, a'i alw at y Bar, 17 Mai 1636; daeth yn ' Bencher,' Lincoln's Inn, 6 Chwefror 1649. Dewiswyd ef yn gofiadur S. Albans yn 1645, yn farnwr y Morlys dros Ogledd Cymru, 1646; bu'n is-farnwr cylchdaith Aberhonddu, 1655-9, a daeth yn ' Judge Advocate ' cylchdaith Caer yn 1660. Bu'n aelod seneddol sir Gaernarfon, 1647-8, sir Fôn 1654-5, Abertawe 1659, a St Albans 1660. Bu'n gweithredu o dan y ' Committee for Advance of Money ' fel stiward maenorau Brenhinwyr y gafaelwyd yn eu tiroedd. Yr oedd yn gymedrol fel gwleidyddwr, yn bleidiol i'r Ddiffynwriaeth, ac ymddengys iddo ymheddychu â'r Adferiad. Profwyd ewyllys William Foxwist, St. Albans, dyddiedig 1673, y fl. honno.

## Awduron


**Yr Athro Glyn Roberts**, (1904 - 1962)

**Gareth Haulfryn Williams**


## Ffynonellau


W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 4

W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899), 60-1

W. R. Williams, *Old Wales a monthly magazine of antiquities for Wales and the Borders* (Talybont Breconshire 1905-1907), i, 257-9, 378-9

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 354


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8009287


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu